Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2010-11 – 2012-13

Cynnwys

Cyflwyniad 1
Ffactorau Dylanwadol 3
Ein fframwaith strategol 5
Gweledigaeth 6
Cenhadaeth 6
Themâu Strategol Allweddol 7
Ehangu Mynediad 7
Sgiliau 9
Trosglwyddo Gwybodaeth 10
Ymchwil 11
Ailgyflunio a Chydweithio 13
Llywodraethu 14
Rôl CCAUC 15
Dangosyddion 16

Cyflwyniad

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, yn gosod fframwaith clir ar gyfer datblygu addysg uwch yng Nghymru y byddwn yn gweithio o fewn iddo wrth roi'r Strategaeth Gorfforaethol hon ar waith. Ein prif nod wrth gynllunio at y dyfodol fydd gwireddu'r weledigaeth yn *Er Mwyn Ein Dyfodol* ac mae strwythur ein Strategaeth Gorfforaethol wedi'i seilio ar ei themâu allweddol.

Fel yr eglurir yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, mae addysg uwch eisoes yn gwneud cyfraniad mawr at les cymdeithasol ac economaidd Cymru ac mae ganddi bresenoldeb cryf yn fwy eang yn y DU ac y tu hwnt. Ond mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn pwysleisio bod llawer mwy i'w wneud. Rydym yn cytuno, ac ychwanegwn fod y pwysau i wella perfformiad addysg uwch yn cael eu dwysáu gan y cyd-destun economaidd y bydd addysg a gyllidir yn gyhoeddus yn gweithredu o fewn iddo am rai blynyddoedd i ddod. Yn erbyn y cefndir hwn, bydd cryfhau ei chyfraniad at gyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog yn gryn her i addysg uwch yng Nghymru yn enwedig gan y bydd yn rhaid iddi, er mwyn cwrdd yn llawn ag anghenion Cymru, sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ymateb i ofynion lleol a'r angen i barhau'n gystadleuol ar y llwyfan rhyngwladol.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi i ni'r dasg o gyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Byddwn yn gweithio'n agos â darparwyr addysg uwch, ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill, i sicrhau bod y ddau brif nod – cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog – yn allweddol i addysg uwch a gyllidir gan y llywodraeth yng Nghymru. Byddwn yn gweithio i ddatblygu cyfundrefn addysg uwch yng Nghymru lle y gall pawb elwa ar addysg uwch os oes ganddynt y gallu i wneud hynny, lle y mae profiad y myfyrwyr o safon uchel, a lle y mae'r graddedigion yn cael eu paratoi ar gyfer byd gwaith a'u rôl fel dinasyddion. Ein nod yw datblygu cyfundrefn addysg uwch sy'n sefydlu perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng darparwyr addysg uwch a chyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mewn cymunedau lleol, a byddwn yn ymdrechu i wella perfformiad ymchwil y sefydliadau er mwyn cefnogi'r economi gwybodaeth a hybu adfywio diwylliannol a chymdeithasol.

Ni fydd yn bosibl cyflawni hyn heb newid y ffordd y caiff addysg uwch ei gweinyddu a'i chyflwyno. Yn y strategaeth hon nodwn ein safbwynt

ynghylch yr hyn y mae angen i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod, pa dargedau penodol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw llygad ar gynnydd, a beth y mae'r amodau llwyddiant (gan gynnwys ystyriaethau strwythurol) yn debygol o fod. Byddwn fwyfwy yn defnyddio ein cyllid craidd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion craidd. Byddwn yn sefydlu trefn ranbarthol ar gyfer cyflwyno addysgu ac elfennau eraill a, lle y bo'n briodol, byddwn yn brigdorri ein cyllid craidd i greu cyllidebau i gefnogi'r datblygiadau hyn. Mae rôl staff yn y sector addysg uwch yn allweddol ac mae angen ei datblygu. Hefyd mae angen datblygu a gwella ansawdd llywodraethu a rheoli yn barhaus wrth i amgylchiadau newid.

Mae'r ffordd newydd hon o edrych ar addysg uwch Gymreig yn her fawr i'r sector ac i ni. Wrth ddatblygu'r strategaeth newydd hon, rydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein strategaeth flaenorol. Nodwn fod rhai elfennau wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ond nad yw'r cynnydd mewn meysydd eraill mor glir ag y byddem wedi dymuno. Yn fwyaf arbennig, mae newid strwythurol eang, a gwreiddio meddylfryd cydweithiol dwfn, yn parhau'n 'waith ar y gweill'. Ni fydd hi'n hawdd i ddarparwyr godi i'r her hon a chynnal darpariaeth yr un pryd o ystyried y cyd-destun ariannol anodd. Bydd sicrhau'r cynnydd a newid angenrheidiol, wrth gwrdd â'r ymrwymiadau presennol yn llwyddiannus, hefyd yn her ddifrifol i ddarparwyr CCAUC. Wrth fynd i'r afael â'r sialensiau hyn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru yn ardderchog a chynaliadwy ac yn cwrdd ag anghenion Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Mae mynd i'r afael â'r sialensiau hyn yn gofyn i lywodraethwyr ac uwch reolwyr sicrhau bod eu sefydliadau mewn sefyllfa i gyflawni dros Gymru yn y tymor hir, a chofleidio a gwreiddio meddylfryd cydweithiol, gan gynnwys cyfuniadau lle y bo'n briodol. Nid yw hyn yn amser ar gyfer 'busnes fel arfer'.

Ffactorau Dylanwadol

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn diffinio'r ddwy flaenoriaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru fel cynyddu cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog. Cefnogwn y ddwy flaenoriaeth hyn yn llwyr. Serch hynny, rhaid i ni gydnabod eu bod yn dibynnu ar ei gilydd a gweithio gyda'r gyd-ddibyniaeth hon. Er mwyn i addysg uwch wneud y cyfraniad gorau posibl at flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mae angen i ni weithio mewn ffordd gydlynol a chyd-atgyfnerthol.

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r ffyrdd cymhleth y mae gweithgareddau addysg uwch yn cyfrannu'n wahanol at y ddwy flaenoriaeth. Mae ymchwil, er enghraifft, yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu economi bywiog drwy ymelwa ar wybodaeth. Ond rhaid cael economi cryf i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â ffynonellau mwy endemig anghydraddoldeb cymdeithasol. Gall addysg ar lefel uwch wella'r lefelau o sgiliau mewn cymdeithas, gan gynyddu cynhyrchedd economaidd, ond mae hefyd yn paratoi pobl i chwarae rhan lawn fel dinasyddion.

Wrth fynd i'r afael â'r ddau brif nod, cyfiawnder cymdeithasol ac economi bywiog, nodwn bum thema strategol allweddol, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at y ddau. Hefyd nodwn ddwy thema alluogi y mae'n rhaid gweithredu arnynt mewn ffordd glir a phendant er mwyn sicrhau cymaint o gynnydd â phosibl gyda'r pum thema strategol.

Y pum thema allweddol yw: Ehangu Mynediad, Profiad y Myfyrwyr, Sgiliau, Trosglwyddo Gwybodaeth, ac Ymchwil. Bydd cynnydd gyda phob un yn gofyn am ragor o waith ym meysydd Ailgyflunio a Chydweithio a Llywodraethu.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei gweithredu mewn cyd-destun economaidd heriol. Beth bynnag y bydd penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol ar gyllidebau addysg uwch, bydd pwysau mewn rhannau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn debygol o leihau'r adnoddau sydd ar gael i'r sector yn ystod oes y strategaeth hon. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'n hadnoddau gael eu canolbwyntio fwy ar flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru: bydd angen gwneud defnydd mwy strategol o gyllid craidd. Bydd yn rhaid i sefydliadau fod yn fwy effeithiol fyth wrth geisio ffrydiau incwm ychwanegol, gan gynnwys rhai o wledydd tramor. Er mwyn cwrdd ag anghenion Cymru, bydd angen iddynt lwyddo yn wyneb cystadleuaeth

ryngwladol gynyddol am fyfyrwyr, staff a chyllid, yn enwedig contractau ymchwil. Nodwn hefyd fod cyd-ddibyniaeth rhwng y gallu i ennill y ffrydiau incwm ychwanegol hyn a'r defnydd a wneir o'n cyllid craidd.

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym wedi ystyried i ba raddau y mae nodau ein strategaeth flaenorol wedi cael eu bodloni. Byddwn yn darparu dadansoddiad llawn o'r cynnydd a wnaed ar ein gwefan (www.hefcw.ac.uk). Fel y gellid disgwyl, o ystyried yr ystod helaeth o dargedau, bu cynnydd yn gymysg. Mae angen i ni nodi hefyd fod cyfyngiadau data'n golygu ein bod ni'n asesu cynnydd tuag at dargedau *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer 2010 rai blynyddoedd cyn y bydd unrhyw ddata ar gyfer 2010 ar gael. Ond at ei gilydd mae'r sector wedi llwyddo i gynnal ei gadernid ariannol ac ni fu llawer o bryderon am lywodraethu yn ystod y cyfnod dan sylw. Bu perfformiad y sector ym maes ehangu mynediad yn dda, a hefyd ansawdd profiad y myfyrwyr, er bod angen gwella cyfraddau cadw. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu, a hefyd nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio. Hefyd bu cyfraniad economaidd uniongyrchol y sector yn dda o'i gymharu â'r normau ar gyfer y DU.

Ond nid oes lle i laesu dwylo. Mae angen gwelliannau pellach yn yr holl feysydd hyn er mwyn cyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Mae'r angen hwn yn fwyaf clir mewn perthynas ag ymchwil: nid yw Cymru'n sicrhau ei chyfran briodol o incwm o'r Cynghorau Ymchwil ac mae ganddi ormod o dimau ymchwil sy'n rhy fach ac yn rhy gyfyng eu cwmpas. Mae gormod o'n prifysgolion yn fach yn ôl safonau'r DU ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch cystadleurwydd a chynaliadwyedd.

Yn erbyn cyd-destun polisi *Er Mwyn Ein Dyfodol* a'r sefyllfa economaidd bresennol, ac ar sail dadansoddiad o gynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn cyflwyno isod ein strategaeth lefel uchel ar gyfer CCAUC, ac ar gyfer addysg uwch, yn y tymor canolig. Ategir y strategaeth hon gan gynlluniau gweithredol blynyddol a fydd yn manylu ar y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy bob blwyddyn i gyflawni amcanion y strategaeth.

Ein fframwaith strategol



Gweledigaeth

Datblygu a chynnal addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Cenhadaeth

Defnyddiwn gyllid a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn strategol i:

- *sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;*
- *cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a*
- *sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.*

Er mwyn

- *Cynyddu cyfiawnder cymdeithasol;*
- *Cefnogi economi bywiog.*

Themâu Strategol Allweddol

Ehangu Mynediad

Sicrhau tegwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cyfiawnder cymdeithasol. Mae gan addysg uwch gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod hwn yn nhermau ehangu mynediad. Mae'r sector Cymreig yn parhau i wneud yn dda yn erbyn dangosyddion perfformiad y DU yn y maes hwn ond rydym yn awyddus i weld gwelliannau pellach. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn ailffocysu ein hymagwedd at ehangu mynediad, gan gynnwys y Cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach. Byddwn yn hybu ymagweddau strategol at ehangu mynediad i bob oedran drwy ein trefniadau cyllido diwygiedig, gan gynnwys drwy daliadau premiwm. Byddwn yn annog darparwyr addysg uwch i wella'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys casglu data, i'w helpu i lunio eu strategaethau ac i ddangos effeithiau a llwyddiant eu gweithgareddau. Canolbwyntir yn arbennig ar ddarpariaeth ran-amser (gan gynnwys ymagweddau arloesol at ddysgu hyblyg a dysgu yn-y-gwaith), ar fynediad teg i'r proffesiynau ac ar gadw myfyrwyr – a rhoddir pwyslais ar helpu myfyrwyr i gwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein rhaglenni ehangu mynediad ar raglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru a byddwn yn cryfhau ein hysgogiadau cyllido i gefnogi ein hamcanion ehangu mynediad.

Elfen newydd sylfaenol yn y strategaeth gorfforaethol hon yw ei bod hi'n gofyn am ymagwedd ranbarthol at gynllunio a chyflwyno addysg uwch. Bydd hyn yn sicrhau gwell cyfraddau dilyniant i addysg uwch a thrwyddi erbyn diwedd cyfnod y strategaeth. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi Athrofa Blaenau'r Cymoedd y Prifysgolion. Byddwn yn adolygu strwythurau ein partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach fel eu bod yn cyd-fynd â'n hymagwedd ranbarthol. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i resymoli'r trefniadau ar gyfer bwrsarïau myfyrwyr, gan gynnwys drwy drefniadau'r cynllun ffioedd.

Ym maes Ehangu Mynediad byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Cynyddu cyfranogiad i'r eithaf drwy ffyrdd gwahanol a mwy hyblyg o ddilyn addysg uwch, gan gynnwys astudiaeth ran-amser
- Rhoi sylw i anghysondebau o ran mynediad a chyfle
- Ailffocysu ein dulliau o ehangu mynediad i addysg uwch

Profiad y Myfyrwyr

Sicrhau bod profiad y myfyrwyr o ansawdd uchel

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn rhoi pwyslais arbennig ar roi llais i fyfyrwyr. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, ac eraill, drwy Fenter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE) a thrwy gefnogi'r ymgyrch 'Dweud Eich Dweud'. Drwy ein dulliau gwella ansawdd, byddwn yn annog sefydliadau i wella profiad eu myfyrwyr yn barhaus, gan gynnwys drwy'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a thrwy gefnogi asiantaethau yn y sector sy'n gallu cynnig dulliau o weithio gyda'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ar raddfa'r DU gyfan.

Yn ystod cyfnod y strategaeth byddwn yn gweithio i sefydlu'r Coleg Ffederal i wella hyd a lled darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn cefnogi strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu'n effeithiol at y broses Bologna. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r darparwyr i'w hannog i wneud eu darpariaeth yn fwy hyblyg drwy gyflwyno rhaglenni arloesol a dulliau modiwlaidd, gan adeiladu ar fanteision presennol Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) a'n dull cyllido credyd-seiliedig.

O ran Profiad y Myfyrwyr, byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Parheir â'r ymdrechion i gynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr
- Ei gwneud hi'n bosibl i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru
- Sicrhau bod addysg uwch yn cael ei chryfhau gan lais y myfyrwyr

Sgiliau

Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion

Nododd yr adroddiad ar yr *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru* (adolygiad Jones), a gyhoeddwyd yn 2009, fod gan ardaloedd yng Nghymru lefelau o sgiliau sy'n llawer is na'r cyfartaledd a llai o gyfleoedd lleol i gyrchu addysg uwch. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon rydym yn awyddus i weld cynnydd mewn lefelau o sgiliau ar hyd a lled Cymru ar lefel 4 ac uwch Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, a chydweithio nes rhwng darparwyr addysg uwch a chyflogwyr i ddarparu'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen ar fusnes, gan gynnwys i'r sawl sydd eisoes mewn gwaith.

I'r perwyl hwn, byddwn yn cefnogi a hybu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*. Bydd ein prif fenter i wella cyflogadwyedd, GO Wales, yn parhau i weithio gyda sefydliadau addysg uwch i gynnig lleoliadau i raddedigion ac i ehangu ein rhaglenni newydd (yr Academi Graddedigion a Gweithio Ar Eich Liwt Eich Hun). Byddwn hefyd yn annog mwy o ddysgu yn-y-gwaith ar y lefel addysg uwch a chyfleoedd pellach ar gyfer lleoliadau gwaith. Bydd hyn yn cynnwys hybu rhaglenni mwy amrywiol a hyblyg i gyd-fynd ag angen a galw, gan gynnwys drwy wneud mwy o ddefnydd o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac achredu dysgu-drwy-brofiad blaenorol.

Un cyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni ein hamcanion fydd y Radd Sylfaen, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i fwrw ymlaen â'i bolisi newydd ar Raddau Sylfaen, darpariaeth gradd sylfaen

newydd y sector sy'n cael ei hariannu gan Ewrop, a datblygiadau cysylltiedig yn Athrofa Blaenau'r Cymoedd y Prifysgolion, gan gynnwys mewn sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach.

Ym maes Sgiliau byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mae cyfran uwch o'r boblogaeth yn dysgu sgiliau lefel uwch
- Datblygu mwy o amrywiaeth a hyblygrwydd yng nghynllun, hyd a dulliau cyflwyno rhaglenni i gyd-fynd ag angen a galw
- Cynigir cyfleoedd dysgu rhan-amser gwell
- Mae cyflogadwyedd yn un o brif ganlyniadau'r profiad addysg uwch
- Cryfhau cyfraniad addysg uwch at ddatblygu'r gweithlu

Trosglwyddo Gwybodaeth

Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau lleol ac asiantaethau eraill

Mae sefydliadau addysg uwch eisoes yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi datblygu economaidd yng Nghymru. Serch hynny, mae angen gwneud mwy i gwrdd ag anghenion cyflogwyr a sicrhau y gall y wybodaeth a ddatblygir mewn addysg uwch gael ei wneud yn hygyrch fel y gall y gymuned fusnes ei datblygu.

Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith gyda'r sector, ochr yn ochr â gweithgareddau a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau cydweithio nes â busnes a chynyddu masnacheiddio ymchwil. Byddwn yn cefnogi datblygu porth mwy effeithiol i wasanaethau addysg uwch sydd wedi'i anelu at gyflogwyr.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ar sail ranbarthol i ddatblygu eu cysylltiadau â busnes a'u rolau dinesig.

Ym maes Trosglwyddo Gwybodaeth byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Cefnogir yr economi drwy gryfhau ymelwa systematig ar wybodaeth
- Caiff rôl ddiwylliannol a dinesig addysg uwch ei chryfhau

Ymchwil

Sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

Yn ystod cyfnod y strategaeth byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau ymchwil rhagorol cynaliadwy mewn addysg uwch drwy adeiladu ansawdd a maint er mwyn cryfhau'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu cyfnerthu cyllid a chymorth i hybu cyd-fentrau ymchwil a fydd yn gwneud cyllid y Cynghorau Ymchwil a chyllid o ffynonellau allanol eraill yn fwy hygyrch. Canolbwyntir ar fàs critigol ac ansawdd.

Byddwn yn darparu mwy o gymorth strategol ar gyfer ymchwil ôl-radd ac yn ceisio cynyddu maint y gymuned o ôl-raddedigion yng Nghymru, gan y bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i ddatgloi potensial economaidd busnesau Cymreig. Byddwn yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch fabwysiadu ymagwedd fwyfwy strategol at reoli ymchwil.

Ym maes Ymchwil, byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mae gweithgaredd ymchwil yn ffynnu ac yn effeithiol

- Cynyddu effaith ymchwil prifysgol, drwy dargedu cymorth at gryfderau ymchwil a blaenoriaethau cenedlaethol, a hybu cydweithio

Themâu Galluogi

Ailgyflunio a Chydweithio

Cynhyrchu cyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch

Mae *Er Mwyn Ein* Dyfodol yn disgwyl newid mawr ym mherfformiad addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu dimensiwn rhanbarthol pwysig i gyflwyno darpariaeth. Byddwn yn gofyn am strategaethau rhanbarthol gan ddarparwyr addysg uwch i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn cael eu hadnabod a'u bodloni'n well.

Yn y ddogfen hon rydym wedi rhoi ein barn ar yr hyn y mae angen i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod, pa dargedau penodol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw llygad ar gynnydd, a beth y mae'r amodau llwyddiant (gan gynnwys ystyriaethau strwythurol) yn debygol o fod. Bydd gwreiddio meddylfryd cydweithiol (gan gynnwys cyfuniadau lle y bo'n briodol), lle y mae darparwyr addysg uwch Cymru yn mynd ati i gydweithio a dileu cystadleuaeth ddiangen, yn hanfodol i sicrhau bod y sector yn parhau'n gynaliadwy mewn cyd-destun rhyngwladol hynod o gystadleuol. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon yn sgil datblygiadau, yn enwedig mewn perthynas â datblygu ymatebion i'r agenda rhanbarthol, a newidiadau cydweithiol a newidiadau strwythurol eraill o fewn y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru. Byddwn yn adolygu ein methodolegau cyllido i sicrhau eu bod yn cefnogi blaenoriaethau *Er Mwyn Ein Dyfodol*.

Yn nhermau Ailgyflunio a Chydweithio byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch

- Mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg uwch a rhwng addysg uwch a darparwyr eraill

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y gyfundrefn addysg uwch

Cydnabyddwn rôl hanfodol llywodraethwyr o ran pennu cyfeiriad strategol eu sefydliadau a dal timau gweithredol yn gyfrifol am berfformiad sefydliadol. Mae gofyn i gyrff llywodraethu gynorthwyo timau gweithredol i symud y tu hwnt i gyfyngiadau strwythurau ac arferion hanesyddol presennol y sector ac ystyried y gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd i benderfynu sut y gall gwrdd orau ag anghenion Cymru.

Byddwn yn parhau i symud ymlaen â'n proses ymgysylltu strategol newydd â sefydliadau addysg uwch, ac un o nodau hon yw cryfhau llywodraethu ar draws y sector. Byddwn yn darparu cyllid i hybu ymdrechion cydweithiol sefydliadau i wella arweinyddiaeth a rheolaeth, gan ddysgu oddi wrth arfer y DU. Yn ystod cyfnod y strategaeth, byddwn yn cyfrannu at ganlyniadau'r adolygiad o lywodraethu mewn addysg uwch a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Mawrth 2010, gyda'r nod o adeiladu ar arfer da presennol, canfod anghenion datblygu heddiw ac yn y dyfodol, a hybu neu annog rhaglenni datblygu a fframweithiau cymorth newydd.

Ym maes Llywodraethu byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Hybu rôl darparwyr addysg uwch fel Dinasyddion Corfforaethol
- Adolygu llywodraethu sefydliadol mewn addysg uwch

Rôl CCAUC

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw CCAUC. Mae ganddo gyfrifoldebau statudol i weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch, a rhai cyrsiau addysg uwch a ddarperir mewn colegau addysg bellach. Rydym hefyd yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Mae gennym gyfrifoldebau statudol hefyd mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys perfformiad yn y sector addysg uwch, rhyddid gwybodaeth a gwarchod data.

Ni allwn gyflawni ein hamcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y gyfundrefn addysg uwch a rhanddeiliaid eraill heb ddarparu amgylchedd y gall ein staff wireddu eu potensial llawn ynddo.

Dibynnwn ar bedwar prif fecanwaith ar gyfer asesu i ba raddau yr ydym wedi cwrdd â'n hamcanion:

- Adolygiadau perfformiad a monitro perfformiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Buddsoddwyr mewn Pobl;
- Arolygon Rhanddeiliaid;
- Arolygon Staff.

Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn cynnal arolwg pellach i gael barn rhanddeiliaid, gan adeiladu ar ganlyniadau'r arolwg cyntaf a gynhaliwyd yn 2007-08, a byddwn yn ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Lywodraethu yn CCAUC a gynhaliwyd yn 2009-10.

Dangosyddion

[Mae'r testun isod yn cynnwys dyfyniadau wedi'u haralleirio o *Er Mwyn Ein Dyfodol* a datganiadau cysylltiedig eraill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.]

Ehangu Mynediad:

1. **Cymunedau'n Gyntaf**: Y canran o israddedigion newydd o Gymru ar gyrsiau addysg uwch yn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru.

   Pwrpas: gwell mynediad a dilyniant i bobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

2. **Llwyddiant wrth Ddysgu:** Y gyfradd cwblhau modiwlau.

   Pwrpas: cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus.

   [Sylwer: mae angen mesurau gwell ym maes cadw myfyrwyr i adlewyrchu natur 'cychwyn-gadael' dysgu gydol oes.]

Mesurau eraill ar gyfer:

Anabledd	Ethnigedd
Ymadawyr gofal	Dosbarth economaidd-gymdeithasol

Profiad y Myfyrwyr:

3. **Cyfrwng Cymraeg:** nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

   Pwrpas: cefnogi gwaith y Coleg Ffederal – a all ddatblygu targedau pellach.

4. **Myfyrwyr tramor:** Y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn SAUau Cymru i fod yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr).

   Pwrpas: mae'n un o'r targedau presennol yn Ymgeisio'n Uwch; y nod yw parhau i weld Cymru'n perfformio'n well na'r DU yn gyffredinol yn nhermau recriwtio.

Mesurau eraill ar gyfer:

Canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Canlyniadau Adolygiadau Sefydliadol

Sgiliau:

5. **Cyflogadwyedd:** Cyflogi graddedigion o SAUau Cymru o leiaf yn hafal i'r cyfartaledd ar gyfer y DU

   Pwrpas: meincnodi perfformiad yng Nghymru yn erbyn perfformiad symudol posibl y DU.

6. **Sgiliau:** Ennill cymwysterau (credyd) ar lefel 4 ac uwch.

   Pwrpas: diweddaru sgiliau'r gweithlu.

7. **Graddau Sylfaen:** Twf mewn darpariaeth Gradd Sylfaen a arweinir gan gyflogwyr.

   Pwrpas: mwy o hyblygrwydd o ran strwythur, maint a chyflwyno rhaglenni, llawer mwy o bobl yn gallu dilyn addysg uwch mewn camau drwy gyfrwng darpariaeth ran-amser ac yn-y-gwaith wedi'i ffocysu sydd wedi'i harwain gan gyflogwyr, rhyngweithiad cryf rhwng darparwyr a busnesau.

8. **Rhan-amser:** Cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser newydd sy'n dechrau cyrsiau addysg uwch yng Nghymru.

Pwrpas: mwy o bobl yn cael profiad o addysg uwch mewn ffyrdd sy'n wahanol i'r cwrs gradd amser-llawn traddodiadol; ar gyfer diweddaru sgiliau neu bobl sy'n gweithio.

9. **Dysgwyr sy'n gweithio:** Twf yn nifer y dysgwyr y tu allan i'r ystod oedran traddodiadol ar gyfer israddedigion. Efallai y gellid cyfrif cofrestriadau gan ddysgwyr 25 oed neu drosodd ym mhob modd heblaw am Ymchwil Ôl-radd (YOR).

   Pwrpas: mwy o bobl yng Nghymru i gael profiad o addysg uwch, a dysgu sgiliau lefel uwch.

Ymelwa ar Wybodaeth:

10. **Trosglwyddo gwybodaeth**: Nifer y contractau ymchwil ar y cyd, ymgynghori, trwyddedu ac ati y cytunir arnynt.

    Pwrpas: tystiolaeth o ryngweithiad cryfach rhwng darparwyr a busnesau; mwy o adnoddau a gallu i ymelwa ar wybodaeth; mae'n llawer mwy tebygol yr ymelwir ar ymchwil os caiff ei bennu ar y cyd o'r cychwyn cyntaf gan y darparwr a'r defnyddiwr.

Mesurau eraill ar gyfer:

Cyfres o ddangosyddion o'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch – Busnes a Chymuned (HEBCIS), gan gynnwys mesurau o incwm o drwyddedau a phatentau.

11. **Porth cliriach i wasanaethau addysg uwch**: Llai o byrth busnes mewn addysg uwch.

    Pwrpas: rhyngweithiad cryfach rhwng darparwyr a busnesau; mwy o adnoddau a gallu i ymelwa ar wybodaeth; symleiddio mynediad i gymorth addysg uwch.

Ymchwil:

12. **Incwm o Ymchwil**: Naill ai cynnydd mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil ac Incwm o ffynonellau eraill neu gynnydd yng nghyfanswm yr incwm (cyfuniad o'r ddau)

    Pwrpas: Ymchwil mwy effeithiol drwy ganolbwyntio buddsoddi ar feysydd cryf.

Ailgyflunio a Chydweithio:

13. **Ailgyflunio a Chydweithio:** Maint sefydliad (ar sail i'w phenderfynu) o'i gymharu â maint sefydliadau addysg uwch yn y DU.

    Pwrpas: annog ailgyflunio a chydweithio i sicrhau mwy o gryfder drwy gynyddu màs critigol ym marchnad gystadleuol y DU.

Llywodraethu:

14. **Cynaliadwyedd:** Cyllid CCAUC fel canran o gyfanswm cyllid y sefydliadau i leihau o flwyddyn i flwyddyn.

    Pwrpas: tystiolaeth o ffynonellau cyllid mwy amrywiol, gan gymryd bod hyn yn ffactor mewn gwydnwch tymor hir.

15. **Cynaliadwyedd:** Nid yw costau staff fel canran o incwm yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

    Pwrpas: tystiolaeth o reolaeth dda dros yr elfen fwyaf yng nghostau SAU.

16. **Effeithlonrwydd cyffredinol ein defnydd o adnoddau:** Yn olaf, bydd angen i ni ddatblygu ffyrdd o fesur effeithlonrwydd cyffredinol ein defnydd o adnoddau. Rhai posibiliadau yw:

    - Addysgu: cyfres amser yn dangos uned adnodd
    - Ymchwil: incwm ymchwil arall wedi'i drosoli o gyllid CCAUC; neu am bob aelod o staff;
    - Rheoli Carbon;

- Mesurau ystâd eraill (e.e. defnydd o le).

Pwrpas: asesu effeithiolrwydd cyffredinol y defnydd a wneir o arian cyhoeddus gan AU.